# Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
# Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol

## Canllaw i Ymgeiswyr

Mae'r Gronfa Allweddol Adfywio Cymunedol yn gyfle cyffrous i sefydliadau gynnal prosiectau yng Nghonwy a fydd yn cyfrannu at feithrin 'Balchder mewn Lle' drwy Flaenoriaeth Fuddsoddi Cymunedau a Lleoedd Cronfa Ffyniant a Rennir y DU.

Mae'r gronfa allweddol yn gallu cefnogi ceisiadau am grant rhwng £10,000 a £249,999. Dyma gronfa i gefnogi adfywiad ein cymunedau drwy helpu grwpiau, sefydliadau, gwasanaethau cyhoeddus a mentrau lleol i chwarae rhan arweiniol wrth wella lleoedd yn amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Pwyntiau allweddol:

- Bydd y gronfa yn ystyried ceisiadau ar gyfer unrhyw ymyrraeth dan Flaenoriaeth Fuddsoddi Cymunedau a Lleoedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin
- Mae ymyriadau W1-W15 yn berthnasol i'r gronfa hon a bydd ar brosiectau angen dangos sut maen nhw'n cyflawni'r canlyniadau a'r allbynnau cysylltiedig
- Mae'r gronfa ar agor i grwpiau, sefydliadau, sefydliadau cyhoeddus lleol ymgeisio am grant rhwng £10,000 a £249,999
- Mae hwn yn alwad agored am brosiectau yn Sir Conwy
- Mae'n rhaid talu am y prosiectau a'u cyflawni erbyn hydref 2024
- Gallwch ddefnyddio'r gronfa ar gyfer costau refeniw a/neu gyfalaf
- Mae arian cyfatebol yn angenrheidiol
- Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno ffurflen gais

Bydd y Gronfa Allweddol Adfywio Cymunedol yn derbyn cyllid grant gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

This document is also available in English

## Pa gymorth grant sydd ar gael?

Gall grwpiau cymunedol a thrydydd sector wneud cais am hyd at 90% o gyfanswm cost eu prosiectau, hyd at uchafswm o £249,999.

Gall y sector cyhoeddus a sefydliadau mawr wneud cais am hyd at 80% o gyfanswm cost eu prosiectau, hyd at uchafswm o £249,999.

Bydd yn rhaid i'r ymgeiswyr ddangos sut maen nhw'n bwriadu ariannu'r elfen gyllid cyfatebol.

Gellir cwrdd â holl gostau'r prosiect dan amgylchiadau arbennig.

## Ardal Gymwys

Mae'n rhaid i'r prosiectau hyn gael eu cyflawni yn Sir Conwy.

## Beth fedrwn ni ei ariannu – Ymyraethau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin

Bydd y gronfa yn ystyried ceisiadau ar gyfer unrhyw ymyrraeth dan Flaenoriaeth Fuddsoddi Cymunedau a Lleoedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin (W1-W15). Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos sut maen nhw'n bwriadu cyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau cysylltiedig.

Gallwch ddefnyddio'r gronfa ar gyfer costau refeniw a/neu gyfalaf. Gallwch hefyd ei defnyddio i helpu gyda materion capasiti – naill ai i dalu am adnoddau pwrpasol i gyflawni prosiect sydd eisoes wedi'i ddatblygu neu i ddatblygu syniad drwy ddarnau o waith fel cynlluniau busnes, astudiaethau dichonoldeb, cynlluniau penseiri neu ddylunwyr tirwedd, neu ymgynghoriadau cymunedol a gweithgareddau ymgysylltu sy'n arwain at brosiect ehangach. Fe all hyn roi sefydliadau mewn sefyllfa gadarn i ddatblygu eu syniadau ac i gael cyllid gan ffynonellau eraill ar gyfer y prosiect terfynol.

Fel rhan o'ch cais bydd gofyn i chi ychwanegu'r ymyraethau sy'n berthnasol i'ch prosiect yn ogystal â nodi'r allbynnau a'r canlyniadau y bydd eich prosiect yn eu cyflawni. Bydd yn rhaid i chi bennu targed ar gyfer y rhain gan wneud yn siŵr eu bod yn realistig, yn bosibl ac yn fesuradwy. Chi fydd yn gyfrifol am gasglu a chyflwyno'r dystiolaeth i gefnogi eich cais - cyfeiriwch at y Canllaw Dangosyddion am ragor o fanylion am beth sydd ei angen.

Ceir rhestr o'r holl ymyraethau ar ein wefan – mae ymyraethau W1-W15 yn berthnasol i'r gronfa hon.

## Pwy all ymgeisio?

Byddwn yn ystyried ceisiadau gan:

- Cynghorau Tref / Cymuned
- Grwpiau a chymdeithasau cymunedol
- Cymdeithasau Chwaraeon
- Cyrff cyhoeddus, yn cynnwys yr awdurdod lleol
- Sefydliadau'r trydydd sector
- Elusennau cofrestredig
- Mentrau cymdeithasol, ar yr amod eu bod yn gweithredu ar sail nid-er-elw neu'n gallu darparu tystiolaeth o fudd cymunedol ehangach
- Cydweithfeydd
- Cwmnïau cymdeithasol
- Mentrau cymunedol
- Cwmnïau preifat nid-er-elw
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant
- Cwmnïau budd cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu
- Prifysgol / Coleg
- Ysgolion
- Eglwysi / capeli

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gael cyfansoddiad (neu debyg) a chyfrif banc.

Mae'n rhaid i'r ceisiadau fod dan enw sefydliad sydd â chyfrif banc a chyfansoddiad.

## Beth na ellir ei ariannu:

- Ceisiadau gan unigolion neu geisiadau sy'n rhoi budd i un unigolyn yn unig;
- Unrhyw waith a ystyrir yn ddyletswydd statudol i'w wneud;
- Gweithgareddau sydd o natur wleidyddol neu grefyddol yn unig;
- Gweithgareddau a ariennir yn llawn gan ffynonellau eraill;
- Prosiectau sydd wedi'u cwblhau'n llawn;
- Ad-dalu benthyciadau;
- Costau wrth gefn neu amhenodol;
- Costau codi arian;
- TAW sy'n adenilladwy gan dderbynnydd y grant gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi;
- Cyfraniadau mewn nwyddau;
- Taliadau llog neu daliadau tâl gwasanaeth ar gyfer prydlesi ariannol;
- Anrhegion;
- Dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau sifil, difrod neu unrhyw costau cyfreithiol cysylltiedig;

- Drwgddyledion partïon cysylltiedig;
- Talu am ddiswyddiad annheg neu iawndal arall;
- Dibrisiad, ad-daliad neu amhariad ased y mae derbynnydd y grant yn berchen arno;
- Caffael neu wella asedau (oni bai bod y grant wedi'i ddyfarnu at y diben hwn – bydd hynny wedi'i nodi yn y Llythyr Cyllid Grant os yw'ch cais yn llwyddiannus);
- Costau a gafwyd cyn cymeradwyo'r cyllid, oni bai bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) wedi cytuno i gwrdd â'r costau hynny;
- Ceisiadau gan sefydliadau nad ydyn nhw'n cydymffurfio â gofynion eu rheoleiddwyr (e.e. Comisiwn Elusennau, OSCR, neu Dŷ'r Cwmnïau) ar adeg y cais;
- Lobio a delir amdano, sy'n golygu defnyddio'r grant i ariannu lobio (drwy gwmni allanol neu staff mewnol) er mwyn cynnal gweithgareddau i ddylanwadu neu geisio dylanwadu ar y senedd, llywodraeth neu weithgarwch gwleidyddol; neu geisio dylanwadu deddfwriaeth neu gam gweithredu rheoleiddiol;
- Defnyddio'r grant i alluogi un rhan o'r llywodraeth i herio rhan arall ar destunau nad ydyn nhw'n gysylltiedig â phwrpas cytunedig y grant;
- Defnyddio'r grant i ddeisebu am gyllid ychwanegol;
- Treuliau fel diddanu, sy'n ceisio dylanwadu ar newid i bolisi llywodraeth.

## Paratoi eich cais

Rydym ni wedi darparu canllawiau i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen gais. Gallwch gael hyd i'r rhain ar dudalen 9.

Mae angen i chi ystyried cymhwysedd eich prosiect drwy adolygu ymyriadau, allbynnau a chanlyniadau UKSPF (mae W1-W15 yn berthnasol i'r gronfa hon) ac ystyried sut y bydd yn diwallu anghenion ac uchelgeisiau'r meysydd lle byddwch yn cyflawni.

Casglwych yr holl wybodaeth ofynnol trwy adolygu'r ferswin all-lein o gwestynau'r cais- rydym wedi darparu ferswin Microsoft Word o'r ffurflen y gellir ei defnyddio i'ch helpu baratoi eich cyflwniad. Mae'r fersiwn all-lein i'w ddefnyddio fel canllaw yn unig ac mae angen cyflwyno pob cais trwy'r porth ar-lein.

Cwblhewch y 'Gweithlyfr Costau Prosiect a Chynllunio' yn barod I lanlwytho fel rhan o'ch cais ar-lein.

Atebwch bob cwestiwn. Os nad yw'r cwestiwn yn briodol i'ch sefydliad neu brosiect, ysgrifennwch Amherthnasol/Amh.

Mae yna ddogfennau a all eich helpu chi gyda'ch cais ar gael ar ein gwefan yn Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Corfforaethol CBSC
- Strategaeth Twf Economaidd Conwy
- CREU Conwy – Tanio'r Fflam, Strategaeth Ddiwylliannol Bwrdeistref Sirol Conwy 2021-26

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Os yn berthnasol, fe ddylech chi hefyd ystyried, a chynnwys, sut mae'ch prosiect yn cefnogi Cynlluniau Ardal/Lle neu strategaeth cyngor tref a chymuned.

## Tystiolaeth i gefnogi'ch cais

Mae'n bwysig sicrhau bod eich ffurflen gais wedi'i llenwi'n iawn a bod yr holl ddogfennaeth ategol yn cael ei chynnwys ar adeg ei chyflwyno.

Mae'n rhaid i chi hefyd lenwi 'Llawlyfr Cynllun a Chostau'r Prosiect' a'i uwchlwytho fel rhan o'ch cais.

Mae'r gweithlyfr ar gael ar ein wefan.

Yn ogystal â'r ffurflen gais a'r llyfryn gwaith, dylid cyflwyno'r wybodaeth ganlynol:

- Copi o gyfriflen banc diweddaraf eich grŵp neu sefydliad
- 3 blynedd o gyfrifon archwiliedig
- Copi wedi'i lofnodi o'ch cyfansoddiad neu ddogfen gyfatebol
- Costau fesul eitem
- Strwythur eich grŵp, i gynnwys swyddog cyllid/trysorydd
- Tystiolaeth o ffynonellau cyllid eraill (arian cyfatebol) – gwybodaeth am unrhyw grant arall eraill y gwnaethpwyd cais amdanynt ar gyfer y prosiect. Os yw'ch grŵp/sefydliad yn darparu cyllid cyfatebol yna mae'n rhaid i chi ddarparu cyfriflen banc sy'n cadarnhau bod y swm a nodir yn eich cais ar gael

Os yn berthnasol i'ch prosiect, fe allwch chi hefyd gyflwyno:

- Dyluniadau a chynlluniau manwl
- Dyfyniadau ac amcangyfrifon ar gyfer gwaith (yn unol a'r trothwyon caffael ar dudalen 6)
- Copïau o unrhyw fath o ganiatâd perthnasol neu ganiatâd wedi'i gymeradwyo sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau'r gwaith
- Copi o'r brydles neu'r gweithredoedd i ddangos bod gennych chi'r hawl i gynnal y prosiect. Os yw'r cais yn ymwneud ag eiddo sy'n destun prydles neu forgais, mae'n rhaid darparu tystiolaeth ysgrifenedig hefyd o ganiatâd y landlord / codwr morgais ar gyfer y gwaith arfaethedig
- Tystiolaeth o ymgynghori, er enghraifft ymgynghoriad cymunedol fel arolwg neu ddigwyddiad
- Tystiolaeth o gefnogaeth gan unrhyw gymuned neu sefydliad gwirfoddol arall a fydd yn cael budd o'r prosiect, hefyd unrhyw sefydliadau a fyddai o bosib yn defnyddio'r cyfleuster. Gall hyn gynnwys dyfyniadau o werthusiad pentref, dyfyniadau o gynllun datblygu cyngor tref neu gymuned, dyfyniadau o gynlluniau

ardal lleol neu waith tebyg a wnaed gan grŵp pentrefol neu gymunedol i ddangos yr angen cymunedol

- Copi o gynllun busnes / cynllun gweithredu

Bydd y dystiolaeth y byddwch yn ei chyflwyno i gefnogi'ch cais yn cael ei wirio. Os nad yw'r dystiolaeth yn gyflawn neu os oes unrhyw anghysondeb yna bydd gofyn i chi gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol. Fe all hynny wedyn achosi oedi wrth ystyried eich cais.

**Prosiectau Cyfalaf**

Bydd y grant a benthyciadau ar gael i berchnogion buddiant rhydd-ddaliadol yr eiddo neu unigolion sydd â phrydles gyda 7 mlynedd neu fwy ar ôl ar ddyddiad y cais, ac sydd wedi cael caniatâd ysgrifenedig gan eu (prif) landlord ar gyfer y gwaith arfaethedig.

Os nad ydych chi'n berchen ar y safle neu'r adeilad, bydd angen darparu tystiolaeth gan y landlord neu'r perchennog eu bod yn fodlon eich bod yn gwneud y gwaith.

Sylwer: Pan fo £50,000 neu ragor yn cael ei ddyfarnu i'r ymgeisydd, bydd CBSC yn rhoi pridiant cyfreithiol a chyfyngiad yn erbyn yr eiddo, er mwyn atal gwarediad yr eiddo hen ganiatâd ysgrifenedig CBSC.

Mae CBSC yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl ei ddisgresiwn ei hun.

## Caffael – Dyfynbrisiau

Os yn briodol, mae'n rhaid i chi ddarparu dyfynbrisiau gyda'ch cais.

Mae'n rhaid i bob proses dendro fod yn gystadleuol, agored, teg a thryloyw i ddangos bod gwerth am arian wedi'i gyflawni ar gyfer defnyddio cyllid cyhoeddus, beth bynnag yw gwerth y gwaith.

Dylid dilyn y weithdrefn ganlynol ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau, oni bai bod eich trothwyon ariannol eich hun yn is:

| Gwerth y contract | Y gofyniad lleiaf |
|---|---|
| Hyd at £2,499 | Dyfarniad uniongyrchol |
| Rhwng £2,500 a £14,999 | O leiaf 1 dyfynbris ysgrifenedig yn erbyn manyleb a phris |
| Rhwng £15,000 a £50,000 | O leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig yn erbyn manyleb a phris |
| Rhwng £50,000 a throthwy'r Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd | Proses dendro ffurfiol – bydd yn rhaid llunio hysbyseb gyhoeddus i ddenu cynigwyr ar gyfer y gwaith (GwerthwchiGymru)<br><br>Trothwyon Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (2022)<br>Nwyddau a Gwasanaethau £213,477<br>Gwaith £5,336,937 |

| | |
|---|---|
| | “Trefn Cyffyrddiad Ysgafn” y Gwasanaethau Cymdeithasol £663,540 |

Mae’n rhaid i’r dyfynbrisiau fod yn enw eich sefydliad, gyda chyfeiriad a manylion cyswllt y cyflenwr, yn ogystal â’u Rhif Cofrestru Cwmni a’u rhif TAW os yn berthnasol.

Os nad ydych chi’n dilyn y broses gaffael yn iawn neu os ceir gwrthdaro buddiannau rhwng aelodau o’r sefydliad a’r cyflenwyr, fe allwch chi fod yn peryglu dyfarniad y grant neu orfod ad-dalu’r grant.

Ble bynnag y bo’n bosibl, dylai prosiectau hefyd ystyried a gweithredu:

- Mesurau cynaliadwy a gwyrdd mewn cynlluniau caffael, sy’n cyd-fynd â strategaeth sero net Llywodraeth y DU
- Caffael arloesol, yn cynnwys ystyried cynnwys gwerth cymdeithasol yn y broses gaffael
- Mentrau, canllawiau a pholisïau'r llywodraeth, fel y Llyfrynnau Caffael, Ymgynghori ac Adeiladu, y Llyfryn Contractau Allanol a chanllawiau’r llywodraeth ar gynllunio penderfyniadau.

## Cyflwyno eich cais

Mae’n rhaid cyflwyno ceisiadau ar-lein – rydym wedi darparu fersiwn Microsoft Word o’r ffurflen, y gellir ei defnyddio i’ch helpu i baratoi eich cais.

## Asesu eich cais

Caiff yr asesiad ei gynnal gan banel cyllido grantiau sy’n cynnwys uwch swyddogion profiadol, Cynghorwyr Sir a chynrychiolwyr allanol, a fydd yn barnu pa mor dda mae’ch cais yn cyflawni ymyriadau, allbynnau a chanlyniadau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Bydd hyn yn cael ei dafoli yn erbyn lefel y risgiau sydd ynghlwm wrth eich prosiect, y tebygrwydd o dderbyn y cyllid llawn, yr amserlen er mwyn cyflawni a pha gynlluniau sydd gennych chi yn eu lle i liniaru’r risgiau hyn.

Yn ogystal â’r uchod, ble y bo’n briodol, byddan nhw hefyd yn asesu:
- I ba raddau mae’r prosiect yn cyfrannu at gynlluniau a strategaethau lleol
- Tystiolaeth i ddangos yr angen lleol am y prosiect/gwasanaeth
- Y budd i gymunedau ac ymwelwyr Conwy
- Y cyfranogiad lleol wrth gynllunio’r prosiect
- Cefnogaeth y gymuned i’r prosiect
- Cefnogaeth Cynghorau Tref a Chymuned i’r prosiect
- Cefnogaeth y Cynghorydd Sir i’r prosiect
- Gwerth am arian y prosiect gorffenedig
- Dichonoldeb ariannol y sefydliad

## Os yw eich cais yn llwyddiannus

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd y grant yn cael ei dalu ar ôl i chi gwblhau’r gwaith

ac ar ôl derbyn anfonebau a derbynebau ar gyfer y gwaith sydd wedi'i wneud. Mae'n bosibl y byddwn yn ystyried taliadau interim.

Bydd yn rhaid i chi lofnodi Llythyr Derbyn Grant a fydd yn amlinellu amodau'r cyllid – bydd hyn yn cynnwys (nid yw hon yn rhestr lawn):

- Dyddiad cwblhau gweithgareddau'r prosiect
- Y broses hawlio ac adrodd – bydd arnoch chi angen cyflwyno adroddiadau ar gynnydd, hawliadau ariannol a thystiolaeth i ddangos eich bod chi wedi cyrraedd eich targedau. Bydd amserlen y rhain yn dibynnu ar eich prosiect. Ble bo'n briodol, fe all hyn hefyd gynnwys ymweliadau safle gan swyddogion CBSC
- Canllawiau Marchnata a Chyhoeddusrwydd – bydd arnoch chi angen dilyn y canllawiau a ddarparwn, a all gynnwys gosod plac a/neu gydnabod y cyllid ar eich gwefan. Fe all hyn hefyd gynnwys ymweliadau, ffotograffau ac astudiaethau achos. Drwy dderbyn y grant rydych chi'n rhoi caniatâd i ni hysbysebu dyfarniad eich grant a manylion eich prosiect e.e. ar ein gwefan, yn y wasg neu drwy ddulliau eraill
- Cadw dogfennau'r prosiect – bydd arnoch chi angen cadw pob gohebiaeth, anfoneb, derbynneb, cofnod cyfrifo, cyfriflen banc ac unrhyw ddogfen arall sy'n ymwneud â'ch prosiect a'r gwariant tan 31 Rhagfyr 2034
- Ar gyfer gwaith adeiladu – Os ydych chi'n cael grant o £50,000 neu fwy, bydd CBSC yn rhoi pridiant cyfreithiol a chyfyngiad yn erbyn yr eiddo, er mwyn eich atal rhag gwaredu'r eiddo heb ganiatâd ysgrifenedig CBSC

## Rheoli Cymorthdaliadau

Os yw'ch cais yn llwyddiannus, rydym ni'n bwriadu dyfarnu'r grant dan Symiau Bach o Gymorth Ariannol.

# Llenwi'r Ffurflen Gais

| | |
|---|---|
| **Cyn i chi ddechrau** | Er mwyn i'ch cais gael ei ystyried mae'n rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth a ofynnir amdani ar y ffurflen ar-lein, ynghyd â chyflwyno dogfennau perthnasol eraill – ceir rhestr o'r rhain ar dudalen 5 |
| | Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y canllawiau cyn dechrau'r broses ymgeisio |
| | Unwaith rydych chi wedi cychwyn eich cais, gallwch gadw'r ffurflen a dod yn ôl ati nes ymlaen os oes angen |
| | I wneud hyn, bydd arnoch chi angen darparu cyfeiriad e-bost yn y maes "Cyfeiriad E-bost yr Ymgeisydd" |
| | Os oes arnoch chi eisiau cadw eich cynnydd, cliciwch ar y botwm "cadw" ar waelod y sgrin.<br><br>Dylech dderbyn neges e-bost i'r cyfeiriad e-bost a roddwyd gennych o fewn rhai munudau, yn cynnwys dolen i'ch ffurflen a gadwyd.<br><br>Bob tro y byddwch chi'n cadw eich cais, anfonir dolen atoch – defnyddiwch y ddolen ddiweddaraf i gael mynediad i'r ffurflen rydych chi wedi'i chadw. |
| **Manylion y Sefydliad** | Rhowch enw eich sefydliad. Dylai hyn fod yr un peth â'ch cyfrif banc. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gael cyfansoddiad (neu debyg) a chyfrif banc |
| | Cadarnhewch Statws Cyfreithiol eich sefydliad drwy ddewis o'r gwymplen - cofiwch gynnwys eich Rhif Cofrestru Tŷ Cwmnïau neu Rif Cofrestru Elusen (os yw'n berthnasol) |
| | Cadarnhewch os yw eich sefydliad wedi cofrestru at ddibenion TAW, ac os felly, rhowch eich Rhif Cofrestru TAW |
| **Manylion Cyswllt** | Nodwch fanylion prif gyswllt eich sefydliad yn ogystal â chyswllt arall.<br><br>Y prif gysywllt yw'r unigolyn sy'n arwain y cais, neu sydd â chyfrifoldeb dyddiol ar gyfer cyflawni'r prosiect. Dylai'r ail gyswllt fod yn Swyddog Cyllid/Trysorydd, Clerc os yw'n Gyngor Tref neu Cymuned, neu'n Gadeirydd sefydliad cymunedol. |
| **Ynglŷn â'r Prosiect** | Yn yr adran hon, rhowch wybod i ni am eich prosiect, pam bod ei angen, a sut mae'n cefnogi cynlluniau a strategaethau lleol. |

Mae yna ddogfennau a all eich helpu chi baratoi ar gael ar ein gwefan.

Os yn berthnasol, fe ddylech chi hefyd ystyried sut mae'ch prosiect yn cefnogi Cynlluniau Ardal/Lle neu strategaeth Cyngor Tref a Chymuned.

Manylion y Prosiect – Dywedwch wrthym am eich prosiect (dim mwy na 500 gair).

- Beth ydych chi eisiau ei wneud?
- Pam rydych chi eisiau gwneud hyn?
- Pwy fydd y buddiolwyr/a faint?
- Pa wahaniaeth fydd y prosiect yn ei wneud?

Pam bod angen y prosiect yn yr ardal? Eglurwch sut rydych chi wedi ymgynghori â'r gymuned a pha dystiolaeth o angen sydd gennych?

Dylai'r adran hon gynnwys sut fyddai'r angen ar gyfer y prosiect yn cael ei nodi.

Os yw'r gwaith rydych yn dymuno ei gyflawni yn berthnasol i safle neu adeilad, dywedwch wrthym am ei berchnogaeth. Os nad yw'r safle neu'r adeilad yn perthyn i chi, esboniwch.

Os yw'n berthnasol i'ch prosiect, cadarnhewch fod y caniatâd perthnasol ar waith (e.e. cynllunio) a rhowch fanylion.

**Cyllid y Prosiect**

Yn yr adran hon, hoffem wybod am gyllid eich prosiect.

Cadarnhewch faint o gyllid rydych yn gwneud cais amdano gan Gronfa Allweddol UKSPF Conwy – dyma fydd cost derfynol eich prosiect, ac eithrio'r cyllid cyfatebol.

Cyllid cyfatebol yw cyllid o ffynonellau eraill, a fydd hefyd yn cael eu defnyddio i dalu am gostau'r prosiect. Gall hyn gynnwys grantiau eraill, cyllid eich hun, ac ati.

Cyn cyflwyno eich cais i ni, sicrhewch fod gennych ffigur realistig ar gyfer y gwaith arfaethedig.

Bydd arnoch chi angen dangos sut mae'ch cyllid cyfatebol yn cael ei ariannu, a byddwn yn gofyn i chi uwchlwytho hyn yn yr adran 'Dogfennau Ategol'.

**Rheoli Cymorthdaliadau**

Cadarnhewch a yw'r ymgeisydd wedi derbyn unrhyw gymorth

| | |
|---|---|
| | sector cyhoeddus trwy gynllun Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA), Cymorth Gwladwriaethol De Minimis, Symiau Bach o Gymorth Ariannol (SAFA) neu Hawl Arbennig Tynnu Arian dros y 3 blynedd ddiwethaf. |
| **Gwybodaeth Arall** | **Y Gymraeg**<br>Nodwch a oes gan y sefydliad bolisi neu ddatganiad y Gymraeg.<br><br>**Sero Net a'r Effaith Amgylcheddol**<br>Disgrifiwch sut rydych wedi ystyried effaith amgylcheddol ac ecolegol eich prosiect ac, os yw'n addas, sut mae eich cynnig yn cefnogi polisïau Sero Net Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, neu uchelgeisiau amgylcheddol ehangach.<br><br>https://www.gov.uk/government/publications/net-zero-strategy<br><br>https://www.llyw.cymru/cymru-sero-net<br><br>**Cydraddoldeb**<br>Disgrifiwch sut rydych wedi ystyried effeithiau eich cynnig o ran cydraddoldeb, y grwpiau perthnasol a gaiff eu heffeithio ar sail nodweddion a ddiogelir, ac unrhyw fesurau rydych chi'n eu cynnig gan ymateb i'r effeithiau hyn. |
| **Datganiad a Llofnod** | Cwblhewch yr adran hon, gan roi tic ymhob blwch i ddangos eich bod wedi darllen a deall pob pwynt, ac wedi rhoi'r caniatâd perthnasol. |
| | Os oes gwrthdaro buddiannau yn dod i'r amlwg ar ôl i chi dderbyn y grant, efallai bydd gofyn i chi ei ad-dalu os na chafodd rhain eu datgan cyn cymeradwyo'r prosiect neu yn ystod y broses gaffael. |
| **Dogfennau Ategol** | Yn ogystal â'ch cais ar-lein fe allwch chi hefyd uwchlwytho eich dogfennau ategol yn yr adran hon.<br><br>Rhaid i chi hefyd gwblhau'r 'Gweithlyft Costau Prosiect a Chynllunio' a'r lanlwytho fel rhan o'ch cais.<br><br>Mae CBSC yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl ei ddisgresiwn ei hun. |

# Llawlyfr Cynllun a Chostau’r Prosiect (dogfen Excel)

**Mae’n rhaid uwchlwytho’r ddogfen hon gyda’ch dogfennau ategol**

| | |
|---|---|
| **Allbynnau a Chanlyniadau** | Dywedwch wrthym ba ymyrraeth Cymunedau a Lle bydd eich prosiect yn ei ddarparu. Bydd angen i’ch prosiect gefnogi darpariaeth un o ymyraethau Cymunedau a Lle UKSPF (W1-15).<br><br>Dylech hefyd gynnwys manylion ynglŷn â sut fydd eich prosiect yn cyflawni’r Allbynnau a Chanlyniadau cysylltiedig. Yn cynnwys targed yn erbyn bob allbwn a chanlyniad.<br><br>Cyfeiriwch at Ymyriadau, Amcanion, Canlyniadau ac Allbynnau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Cymru i gael rhestr lawn - mae ymyriadau W1-W15 yn berthnasol i’r gronfa hon.<br><br>Bydd y wybodaeth yn yr adran hon yn cael ei defnyddio i asesu gwerth am arian, h.y. a yw’r costau ar gyfer y prosiect yn gymesur i’r allbynnau, canlyniadau a buddiolwyr. |
| **Costau’r Prosiect** | Yn yr adran hon bydd arnoch chi angen darparu crynodeb o holl gostau’r prosiect a phryd rydych chi’n rhagweld y bydd y gwariant yn cael ei wneud.<br><br>Cyn cyflwyno’r cais, gwiriwch gywirdeb y gyllideb i sicrhau nad oes gwallau, a bod y cyfansymiau’n gywir.<br><br>Ar dudalen 6 rydym ni wedi darparu manylion ynglŷn â’r weithdrefn mae’n rhaid i chi ei dilyn i geisio cael dyfynbrisiau ar gyfer eich prosiect. |
| **Pecyn Ariannu** | Nodwch sut bydd eich prosiect yn cael ei ariannu.<br><br>Ychwanegwch gofnod ar gyfer eich cais am grant cronfa allweddol UKSPF fel ffynhonnell cyllid ar wahân. |
| **Cerrig Milltir y Prosiect** | Dywedwch wrthym sut fydd eich prosiect yn cael ei gyflawni. Pwy fydd yn arwain y prosiect? A fydd yna unrhyw bartneriaid cyflawni neu fudd-ddeiliaid? Beth fydd eu rôl? Pa brofiad sydd gennych o gyflawni prosiectau?<br><br>Cadarnhewch ddyddiadau cychwyn a gorffen.<br><br>Ychwanegwch gerrig milltir eich prosiect:<br>• Teitl<br>• Disgrifiad<br>• Pryd ydych chi’n disgwyl i’r garreg filltir gael ei chwblhau? |
| **Risgiau’r Prosiect** | Mae gofyn i chi ddarparu cofrestr risg ar gyfer eich prosiect<br>• Pwy sy’n gyfrifol am reoli’r risg, y Perchennog<br>• Tebygolrwydd o’r risg yn digwydd - a yw’r tebygolrwydd yn uchel, |

canolig neu isel
- Beth fyddai effaith y risg - uchel, canolig, isel
- Y cynlluniau lliniaru sydd mewn grym er mwyn rheoli'r risg rhag digwydd, neu i fynd i'r afael â'r risg os yw'n digwydd